OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1723 (Cy. 235)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Medi 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *29 Medi 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *20 Hydref 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 2 a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**) a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**).

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**). Ymddengys i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i'r cyfeiriadau at offerynnau'r Undeb Ewropeaidd a grybwyllir yn erthygl 2(a)(ii) a (vii) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

(**1**) 1967 p. 8. Diwygiwyd adran 1(2) gan baragraff 43 o Atodlen 2 i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755 (Cy. 90)). Mae'r pwerau a roddir gan adrannau 2 a 3(1) yn cael eu rhoi i awdurdod cymwys ("competent authority"), a ddiffinnir yn adran 1(2) fel Gweinidogion Cymru (ar gyfer Cymru). Diwygiwyd adrannau 2(1) a 3(1) gan baragraff 8 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68).

(**2**) 1972 p. 68. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).

(**3**) Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006, a chan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7).